

Y Wennol

Straeon gan ddysgwyr a Chymry Cymraeg i bawb ddarllen

e-bost: bobwennol@ntlworld.com

Cyfrol 1 Rhif 8

Yn rhad ac am ddim

Tachwedd 2020

Y Tro Cyntaf

Blynyddoedd llawer yn ôl roedd Nia Roberts yn cyflwyno rhaglen foreol ar Radio Cymru. Roeddwn i'n gwrandao yn y car un bore pan oeddwn i ar y ffordd i rywle. Roedd hi'n gofyn i'r gwrandawyr ei ffonio os oedden nhw'n cofio gwneud rhywbeth am y tro cyntaf. Roedd llawer wedi ffonio i mewn a diddorol oedd y straeon ond roedd gen i stori am noson pan oeddwn i wedi gwneud dau beth am y tro cyntaf. Gan roeddwn yn gyrru a heb amser i aros doeddwn i ddim yn gallu ffonio i mewn. Achos hynny roedd yr holl genedl, wel y rhai oedd yn gwrandao, wedi colli'r cyfle i glywed fy stori. Colled fawr iddyn nhw, ynte!

I ddechrau o'r dechrau. Roedd hi'n 1955 a finnau'n deng mlwydd oed ac yn byw yn Llanallgo, ar gyrion Moelfre, Sir Fôn. Bore Gwener a finnau'n cyrraedd yr ysgol i glywed rhai o'r plant yn siarad am rywbeth, doeddwn i ddim yn deall. "Am beth dach chi'n sôn?" gofynnais ac un o'r bechgyn yn ateb "Telifision." Doeddwn i ddim callach, wrth gwrs. "Beth ydy telifision?" gofynnais. Mi wnaeth y bachgen feddwl am dipyn cyn ateb "Wel, mae fel y weirles ond ti'n gweld y bobl." Roeddwn i'n gwybod bod hynny'n syniad hollol wirion a ddeudais i hynny wrtho fo. "Na mae'n wir" medda fo "tyrd i lawr i dŷ Deric nos yfory a chei di weld".

Y noson wedyn, nos Sadwrn es i lawr i Moelfre a chnocio ar ddrws Deric, ei fam atebodd a ches i fy arwain i'r lolfa. Roedd yr ystafell yn dywyll heblaw am olau bach glas yn y gornel. Wrth i fy llygaid ddod i arfer â'r tywyllwch sylweddolais

fod yr ystafell yn llawn plant yn eistedd ar seddau, ar freichiau seddau ac ar y llawr. Eisteddais ar y llawr i wyllo'r sgrin fach glas. Dw'n i ddim beth oedd y rhaglen a ches i ddim llawer o amser i'w fwynhau chwaith achos yn sydyn roedd BANG mawr uchel a'r plant i gyd yn codi a mynd fel un at y drws. "beth sydd?" gofynnais. "Dyna oedd y marw'n!" medda rywun "tyrd efo ni!"

I lawr at y bae wedyn a cherdded y llwybr uwchben y môr tan i ni gyrraedd gorsaf y bad achub. I mewn trwy'r drws i syllu i fyny ar y cwch mawr. Roedd dynion yn

prysur roi ei dillad dal dŵr ymlaen, wedyn, efo pawb ar y cwch, roedd rhaid i Wiliam, brawd Deric, taro'r pin allan o'r siacl. Roedd yn cael trafferth felly tynnodd ei esgid i roi clatsian reit dda a syrthiodd y pin allan. Yn araf deg i ddechrau gwnaeth y bad achub lithro tuag at y môr, cyflymu i daro'r dŵr efo gymaint o glec i'r cwch ddiflannu dan y dŵr cyn codi a chyflymu i ffwrdd i'r tywyllwch.

Ar y dydd Llun canlynol nes i ddysgu mai mynd i achub buwch a oedd wedi syrthio oddi ar y



clogwyn i'r traeth oedden nhw. Roedd y llanw yn dŵad i mewn a'r fuwch mewn panig llwyr.

Ces i ddim mwy o fanylion tan 1979 a Dic Evans wedi ennill medal aur yr RNLI dwywaith am ddewrder. Roedd Ian Skidmore wedi ysgrifennu llyfr am ei hanes ac, wrth gwrs, roedd rhaid i mi gael copi. Wrth ei ddarllen cyrhaeddais ran ble roeddwn yn teimlo'n gyfarwydd â'r stori. Ia, roedd yn sôn am y noson welais y teledu am y tro cyntaf a hefyd gweld y bad achub yn cael ei lansio, eto am y tro cyntaf.

Oes gan rywun stori well na hyn dwedwch?

Geiriau a Dywediadau

gan Dic Shonnery

Toc wedi

Sut fydddech chi'n dweud "Just after 10 o'clock?" Gallech chi ddweud "Tipyn bach ar ôl deg o'r gloch" ac mae hynny'n hollol dderbyniol. Ond mae ffordd well sef "Toc wedi deg". Mae cloc yn mynd 'tic toc' tydi ac roedd gan y person a wnaeth bathu'r ffordd o ddweud hynny ddewis o 'tic wedi deg' neu 'toc wedi deg'. Diolch byth mi wnaeth y ddewis iawn.

Gwnewch yn siŵr bod popeth yn mynd i ddigwydd tipyn bach ar ôl yr awr yn y mis yma er mwyn i chi ymarfer dweud 'toc wedi'!

JCB

Wrth fynd o gwmpas y wlad byddech yn gweld y peiriant mae'r Saeson yn galw'r JCB. Excavator ydy o ond, yn Saesneg JCB yw'r enw pob tro. Enw'r cwmni sydd yn adeiladu nhw yw J C Bamford.

Mae'r Cymry yn ddyfeisgar iawn ac na fyddem ni'n ei alw'n JCB. Mae ein henw ni yn dweud y cwbl am y peiriant - Jac Codi Baw! A dyna yn union beth mae'n gwneud!

Arbennig!

Smyglwyr Pwll Du

gan Martin Jones

Yn rhifyn 6 o'r Wennol mewn darn am lefydd i'w weld yng Nghymru, ysgrifennais am Fae Pwll Du gan ganolbwyntio ar y chwarel calchfaen yno. Ond nid y chwarel oedd yr unig ddiwydiant ym Mhwl Du, achos roedd y lle yn berffaith ar gyfer smyglo! Mae rhai pobl wedi honni y cafodd mwy o nwyddau gwaharddedig eu glanio ym Mwl Du nag unrhyw le arall ar arfordir Môr Hafren! Mae'r bae'n gysgodol ac yn ddiarffordd, a gallai'r cychod gyrraedd pen y traeth. O Bwll Du cafodd y nwyddau eu cludo lan Cwm Llandeilo Ferwallt lle'r oedd y coed yn darparu ffyrdd cudd allan o olwg.



Bae Pwll Du

Roedd smyglo ar ei anterth ym Mwl Du yn y drydedd ganrif ar bymtheg. Mae'n ymddangos taw yn y cyfnod hwnnw fferm Great Highway (ar y ffordd i mewn i Bennard) oedd pencadlys y smyglwyr a William Arthur, perchennog y fferm, oedd arweinydd y criw. Roedd John Griffiths o fferm Little Highway (yn agos iawn at Great Highway) yn ddirprwy iddo.

Am amser hir roedd dim ond tri swyddog tollau ar gyfer Gŵyr i gyd, a ni allent wneud llawer i atal y fasnach werthfawr hon. Roedd eu llwyddiannau yn erbyn y smyglwyr yn brin iawn, er ym 1789 cafodd William Arthur ddirwy o bum punt a phum ceiniog am "ddal a chuddio nwyddau gwaharddedig."



Fferm Great Highway

Yn ôl un stori, daeth swyddogion tollau o hyd i gasgen o jin neu frandi yng nghrogloffft tŷ William Arthur. Anfonodd y prif swyddog ei ddyinion i ddod â cheffyl er mwyn symud y dystiolaeth, ac arhosodd yntau i warchod y gasgen. Ond gwnaeth Arthur i'w weision godi twrw yn yr ystafell islaw wrth iddo fe durio twll trwy'r nenfwd ac i mewn i'r gasgen er mwyn ei wagio! Pan ddychwelodd y swyddogion eraill, roedd y dystiolaeth wedi diflannu!

Ond ymhen hir a hwyr, ym 1804, trwy hap a damwain, dysgodd y swyddogion tollau bod glaniad o nwyddau yn ddisgwyliedig, a llwyddon nhw i wyllo'r nwyddau yn cyrraedd fferm Great Highway. Anfonon nhw am atgyfnerthiadau, ond erbyn iddyn nhw gael mynediad roedd y nwyddau wedi diflannu a doedd ddim byd i'w weld! Chwilion nhw trwy'r tŷ heb lwyddiant cyn sylwi bod rhywbeth o'i le â llawr y gegin. Daeth chwiliad pellach â thrap ddorau i selerau cudd i'r golwg, nid yn unig yn y tŷ ei hun ond hefyd yn yr adeiladau fferm eraill. Daeth y swyddogion tollau o hyd i fwy o selerau cudd tebyg yn fferm Little Highway. Rhwng y ddwy fferm cydion nhw yn fwy na phedwar can casgen o wirodydd, a dyna oedd dechrau diwedd smyglo ar raddfa fawr ym Mhwll Du. Erbyn y 1850au roedd smyglo ym Mhwll Du bron â dod i ben. Roedd posibilrwydd o gael eich dal wedi cynyddu. Hefyd roedd yr elw i'w gwneud o smyglo wedi lleihau o ganlyniad i

ostyngiadau mewn tollau. Mewn geiriau eraill, doedd yr elw ddim yn werth y fenter.

Y dyddiau hyn, mae Pwll Du'n lle mor dawel, ond wrth i chi gerdded dros y traeth (neu fentro i mewn i'r môr), mae'n werth cymryd cwpl o funudau i feddwl am hanes yr ardal a'r holl weithgareddau sydd wedi digwydd yno.

Diwrnod Hamddenol Braf



Roedd y dydd wedi gwawrio a minnau'n sylweddoli doedd dim byd oedd rhaid gwneud. Roeddwn i'n rhydd i wneud beth bynnag oeddwn i eisio. Roedd hi'n ddiwrnod braf a phobl y tywydd yn addo iddi fod fel 'na trwy'r dydd. Ar ôl darllen y papur a mwynhau'r paned o goffi es i i baratoi mynd am dro ond beth am wneud rhywbeth arall - fel maen nhw'n dweud "mae pob newid yn change". Nid oeddwn i wedi bod allan ar y beic am sbel, beth am fynd rŵan? Wel ia, dyna syniad da! Mae'r plant wedi mynd yn ôl i'r ysgol a mwy o bobl yn mynd yn ôl at eu gwaith felly bydd y llwybr cerdded/seiclo rhwng Mwmbwls a'r Marina yn gymharol dawel. Felly allan â'r beic o ddyfnder y garej a ffwrdd â fi i fwynhau'r bae.

Roedd y diwrnod yn gynnes braf a phenderfynais gael reid hamddenol. Mae'n bleser pur i fod ar lwybr tawel wrth ochr ffordd brysur, weithiau, ar ddiwrnod prysur iawn mae'n bosib cyrraedd y

ddinas yn gynt na'r ceir. Ond peidiwch â dweud wrth y gyrwyr neu bydden nhw'n penderfynu seiclo hefyd! Roedd y llanw allan - dim ond am ychydig mae i mewn achos unwaith mae wedi cyrraedd y lan mae ar frys i fynd allan eto. Mae'n mynd allan am tua milltir o bellter, a hynny dwywaith pob diwrnod wrth gwrs! Cyn bo hir roeddwn i wedi cyrraedd y marina ac roedd wyneb y dŵr fel drych ac yn adlewyrchu'r awyr a'r cychod. Dyma'r ardal hamdden.

Mynd heibio'r loc a throi'r gornel ac mae pethau'n hollol wahanol. Dyma'r cychod pysgota, y cychod sydd yn gorfod ennill eu bywoliaeth, mae'r awyr yn llawn oglau'r môr, pysgod a disel. Morwyr go iawn yw'r perchnogion yn mynd allan hyd yn oed pan mae'r môr yn heriol. Ond canran fach iawn yw'r cychod yma, tydi'r byd wedi newid!



Dyma fi rŵan yn cyrraedd yr argae sydd yn cadw dŵr yr afon Tawe rhag rhuthro i'r môr. Dyma ble mae'r loc hefyd a'r llifddorau cryf a'r bont drostynt, dw i'n croesi ac aros am sbel i syllu ar y dŵr yn llifo dros yr argae fel llen hylifol yn disgyn i greu ewyn islaw. Cadw'r adeiladau busnes ar fy chwith ac anelu at adeiladau newydd Prifysgol Abertawe. Lle braf iawn i fod yn fyfyrwr baswn i'n tybio. Ers i mi groesi'r bont mae'r profiad o seiclo'n llawer mwy cyffyrddus achos mae wyneb y rhodfeydd i gyd wedi eu gorchuddio gan slabiau llyfn. Mae llawer o newid wedi bod yma yn y blynyddoedd diwethaf. Dw i'n seiclo o gwmpas

Doc Tywysog Cymru ac mae'r rhodfa yn mynd wrth ei ymyl yr holl ffordd ond, am ryw reswm nid ydyn nhw wedi gosod y bont dros y mynediad i Ddoc y Brenin. Hefyd does dim modd mynd ar yr ochr arall er bod y rhodfa yn edrych fel ei fod wedi cwblhau. Mae'r bont sydd i fod i groesi'r mynediad yn gorwedd wrth yr ochr, ac wedi bod fel yna am flwyddyn. Od iawn.

Dw i'n cael hwyl mewn ffordd dawel a hamddenol ac os dw i'n troi am adref rŵan mi fydda i wedi gwneud deuddeg milltir a hanner. Baswn i'n hoffi gwneud mwy gan ei bod hi'n ddiwrnod mor dda. Cawn ni weld nes ymlaen. Yn y cyfamser dw i'n seiclo o gwmpas y Brifysgol ac yn gweld llawer o rodfeydd newydd yn cael eu hadeiladu, rhodfeydd fydd yn mynd â ni yn agosach at y dociau ac at y môr. Mae hyn yn addawol dros ben a dw i'n edrych ymlaen atyn nhw orffen.

Brensiach annwyl! Yn yr amser dw i wedi bod yn meddwl am hynny dw i wedi cyrraedd Black Pill ble fydda i'n troi oddi ar y trac a mynd adref ond dw i'n penderfynu mynd ymlaen at Ystumllwydiarth. Wedyn wrth gyrraedd Black Pill unwaith eto byddaf yn mynd i fyny'r trac sydd yn dilyn yr hen reilffordd hyd at Ddyfnant. Mae'r trac yn dringo'n raddol ond mae'n bosib cadw cyflymder reit dda felly ffwrdd â fi heibio dafarn y Rheilffordd yng Nghilâ ac ymlaen dwy filltir eto i gyrraedd Dyfnant. Mae'r ffordd yn ôl yn hawdd, does dim ond rhaid i droi'r pedal pob hyn a hyn felly dw i'n ymlacio a gadael i'r awel sychu'r chwys oddi ar fy nghorff. Ond bydd y chwys yn ôl unwaith dw i'n cyrraedd y gwaelod ac yn troi i fyny Ffordd Derwen Fawr.

Dw i'n cyrraedd adref ac yn teimlo'n dda, dw i wedi gwneud dwy filltir ar hugain a dw i'n haeddu glasiad o ddŵr. Iechyd da i chi!

I Lenwi Bulch – beth am i chi ysgrifennu darn i'w roi yn Y Wennol. Dechreuwch efo rywbeth syml!

Hanes Cymru a Hanes Pobl Dduon

gan Shelagh Fishlock

Mis Hydref oedd mis Hanes Pobl Dduon felly cyfle i fyfyrion am berthynas Cymru â hanes trefedigol Prydain. Dyw hynny ddim yn syml. Mae ystadau a chestyll ledled Cymru wedi cael eu datblygu gan gyfoeth yn seiliedig ar fasnach gaethweision a'r Ymerodraeth Brydeinig, ac yn aml adeiladwyd ffyrdd, ysgolion, tai ac eglwysi o'u cwmpas. Ond nid Cymru oedd mwyafrif y perchnogion, gan fod Cymru hefyd yn wlad drefedigol, wedi gweld ei chyfoeth naturiol - glo, haearn, llechi, dŵr - yn llenwi pocedi barwniaid diwydiannol Saesneg.

Felly faint pwysicach i bobl Bethesda yw hanes brwydr chwerw gweithwyr y chwareli llechi yn erbyn teulu Arglwydd Pennant yn y 20fed ganrif, na tharddiad eu cyfoeth 200 mlynedd o'r blaen? A sut i esbonio bywyd Valentine Morris, perchennog afradlon Plas Piercefield, Casgwent? Mab anghyfreithlon perchennog planhigfa a chaethwas yn Antigua oedd e, anfonwyd i Loegr am ei addysg yn yr 18fed ganrif. Etifeddodd y plasty a hefyd caethweision a phlanhigfa ei dad, ac mae'n debyg nad oedd e'n poeni am wario ei gyfoeth.




Plas Piercefield

Mae celf y cyfnod yn darlunio pa mor boblogaidd oedd cael gweision bach du, oedd yn gwisgo colerau metal i ddangos bod nhw'n gaethweision. Ond hefyd mae stori John Ystumllun (Jac Du), a

gipiwyd 'yn wyllt' yn Affrica yn 1742 fel pe bai'n anifail. Ar ôl cyrraedd Cymru, cafodd e ei fabwysiadu gan y teulu Wynn a'i fagu fel rhan o'r teulu, felly roedd yn siarad Cymraeg. Roedd yn gweithio yn y gerddi. Roedd wedi syrthio mewn cariad â Margaret Roberts a rhedodd i fwrdd er mwyn ei phriodi. Aeth yn ôl at y teulu a cafodd ei swydd yn ôl. Cafodd fwthyn a gardd fawr gan Ellis Wynn. Roedd pump o blant gan John a Margaret ac roedd llawer o'u disgynyddion yn dal yn byw yn yr ardal yn 2019. Mae bedd John mewn mynwent ger Cricieth, Gwynedd.

Does dim atebion hawdd i hanes y wlad, a hyd yn oed y dyddiau yma dyw pethau ddim mor syml. Bu protestiadau yn ddiweddar yn Sir Benfro yn erbyn defnyddio hen ganolfan milwrol Penalun ar gyfer ceiswyr lloches. Ydy hynny'n esiampl o hiliaeth, ymgyrch yn erbyn llywodraeth San Steffan neu gefnogi ffoaduriaid archolladwy rhag gorfod byw mewn lleoliad hollol anaddas, yn debyg i garchar?

Er ei fod weithiau'n anghyfforddus, mae hi'n bwysig cofio, neu ddarganfod, manylion hanes pobl dduon yng Nghymru. Pethau hanesyddol, pethau drwg, fel y terfysgoedd hiliol yng Nghaerdydd yn 1919, a hefyd pethau i ddatlu - Cymru enwog fel Shirley Bassey, a Colin Jackson. Ond beth am Billy Boston, chwaraewr rygbi rhagorol na chafodd gyfle erioed i gynrychioli ei wlad?





Vernesta Cyril



John Ystymlynn

Mae stori gan bron pob person du o hiliaeth yn ei fywyd, pethau “bach” neu bethau ofnadwy sy’n cael effaith ar ei hunan-barch fel dinesydd. Mae’r fis hon yn gyfle i gydnabod ac yn herio’r hiliaeth sy’n dal i fodoli yn ein cymdeithas, a hefyd i ddatlu’r cyfraniad mawr gan gymaint o Gymry duon i fywyd y wlad. Pobl fel Iris Williams o Rydyfelin, cantores jazz a enillodd Cân i Gymru yn 1974; Leonard Hinds, morwr yn y Rhyfel Byd Cyntaf, a’i blant, cynghorydd a maer Bro Morgannwg yn y saithdegau; neu Vernesta Cyril, Bydwraig y Flwyddyn 2006.

Beth am ddilyn y linc

www.walesonline.co.uk/news/wales-news/brilliant-black-welsh-celebration-100-15173754 i ddysgu mwy?

Want to contribute ? But ...

It takes a bit of courage to write in a language which you have only recently learned, particularly Welsh. There are mutations to think about and the question of whether something is masculine or feminine. Nobody wants to make a mistake and feel foolish, not that you should feel foolish. You would be admired for trying. If only there was a way of checking everything you have written ... well, good news – there is.

Canolfan Bedwyr, part of Bangor University has developed software called Cysill and it will check

your spelling, mutations and whether you have got the gender right. You can install it so it works through Microsoft Word but at the moment I can’t seem to get the details up on screen. However there is also an online version where you cut and paste your text into the box (you will have to do it bit by bit). You just need to press the button and watch it work.

Also did you know that you can install Welsh language software so that mis-spellings are highlighted as you type. You can get that, and instructions about installation from the Microsoft website.

So there you are, do all that and try out your new software by, say, writing a story and when you are happy with it send it to me. I will then run my eye over it and you will have your first story published – and won’t you feel proud!

Cysill Ar Lein – just put “Cysill ar lein” in your search engine and then just use cut and paste.

Please don’t try to learn this vocabulary, just refer to it for the stories. Read as much as you can and your brain will slot everything into the right compartments. Trust me!

Geirfa

Y Tro Cyntaf

- Ar gyrion – on the outskirts
- Dim callach – no wiser
- Gwirion – silly
- Cei di weld – you will see
- Gorsaf y bad achub – lifeboat station
- Llithro – to slip
- Panig llwyr – complete panic
- Manylion – details
- Dewrder – bravery
- Cyfarwydd â – to be familiar with

JCB

- Dyfeisgar – inventive

Smyglwyr Pwll Du

Canolbwyntio – to concentrate on
Chwarel calchfaen – limestone quarry
Diwydiant – industry
Nwyddau gwaharddedig – contraband
Cysgodol – sheltered
Diarffordd – remote
Llandeilo Ferwallt – Bishopston
Darparu – to provide
Ffyrdd cudd – hidden paths
Ar ei anterth – at its height
Pencadlys – headquarters
Arweinydd – leader
Atal – to stop
Llwyddiannau – successes
Prin iawn – scarce
Diryw – deputy
Croglofft – garret
Tystiolaeth – evidence
Gwarchod – to protect
Codi twrw – create a great noise
Durio twll – drill a hole
Ymhen hir a hwyr – eventually
Hap a damwain – by chance
Disgwyliedig – expected
Atgyfnerthiadau – reinforcements
Gwirodydd – spirits
Raddfa fawr – a large scale
Cynyddu – to increase
Gostyngiadau – reduction
Tollau – excise duty

Diwrnod Hamddenol Braf

Paratoi – to prepare
Dyfnider – depths
Adlewyrchu – to reflect
Loc – lock (as in canal lock)
Ennill eu bywoliaeth – to earn their living
Heriol – challenging
Canran – percentage
Argae – dam
Rhuthro – to rush
Llifddorau – lock gates
Llen hylifol – liquid curtain
Ewyn – foam
Rhodfeydd – walkways
Gorchuddio – to cover

Llyfn – smooth
Cwblhau – to complete
Addawol – promising
Brensiach annwyl – eg goodness me
Ystumllwydiarth – Oystermouth
Dringo'n raddol – climbing gradually

Pobl Dduon

Myfyrio – to contemplate
Trefedigol – colonial
Ystadau – estates
Ledled – all over
Cyfoeth – wealth
Seiliedig – based on
Masnach gaethweision – slave trade
Ymerodraeth Brydeinig – British Empire
Cyfoeth naturiol – natural resources
Barwniaid diwydiannol – industrial barons
Brwydr chwerw – bitter struggle
Tarddiad – source
Esbonio – to explain
Afradlon – prodigal, wasteful
Planhigfa – plantation
Etifeddu – to inherit
Celf y cyfnod – arts of the period
Cipio – to capture
Mabwysiadu – to adopt
Magu – to bring up
Disgynyddion – descendants
Mynwent – cemetery
Ceiswyr lloches – asylum seekers
Hiliaeth – racism
Ffoaduriaid – refugees
Archolladwy – vulnerable
Hollol anaddas – totally unsuitable
Terfysgoedd hiliol – race riots
Hunan-barch – self esteem
Bydwraig – midwife

Dw i angen pethau ar gyfer dechreuwyr,
rhywbeth fel sgwrs rhwng dau berson - yn sôn
am wyliau - eich hoff bethau – beth dach chi'n
hoffi bwyta – pa gerddoriaeth dach chi'n hoffi –
sut dach chi wedi ymdopi efo Cofid 19 ac yn y
blaen. Cewch chi ddewis. Eisteddwch i lawr efo
ffrind (cadwch y pellter) a gadewch i'r geiriau
llifo! Anfonwch nhw ataf fi. Diolch, Rob